**Report No. 08/26**
**Audit & Corporate Services Review Committee**

## Report of Chief Executive

## Subject: Annual Audit Summary 2025

The Auditor General for Wales' Annual Audit summary shows the work completed since the last Annual Audit Summary, which was issued in May 2025. The audit summary forms part of the Auditor General for Wales' duties.  The document is attached for Members' information.

**Recommendation**
**Members are asked to NOTE the Annual Audit Summary 2025.**

Background Documents
None

*(For further information, please contact Tegryn Jones)*

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Crynodeb Archwilio Blynyddol 2025

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2026



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynnwys | 2 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Cipolwg ar eich archwiliad | 5 |
| Canfyddiadau’r archwiliad o’r cyfrifon | 7 |
| Canfyddiadau archwilio perfformiad | 9 |
| Ansawdd archwilio | 10 |
| Rhagor o wybodaeth | 11 |

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth neu ddefnydd arall o'r ddogfen hon gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu e-bostiwch post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cyflwyniad



**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'n bleser gennyf rannu fy Nghrynodeb Archwilio Blynyddol ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (yr Awdurdod). Mae'n crynhoi prif ganfyddiadau fy ngwaith archwilio yn 2025 a wnaed i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhoddais farn ar a oedd y cyfrifon wedi'u paratoi'n briodol a rhoddais farn wir a theg, ym mhob agwedd berthnasol.

Mae fy nhîm archwilio hefyd wedi asesu a yw'r Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau y defnyddir adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol, a'i fod wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Fe wnaethom grynhoi gwaith archwilio perfformiad 2024-25 yn ein Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf ar gyfer 2024, a gyhoeddwyd gennym ym mis Mai 2025. Roedd y Crynodeb hwnnw'n cynnwys ein hadolygiadau ar osod amcanion llesiant a hyrwyddo mynediad i'r Parc Cenedlaethol. Fel y nodir yn fy nghynllun archwilio, mae'r adolygiadau hyn wedi'u cynnal yn unol â safonau Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

Mae'r canfyddiadau archwilio manwl ar gyfer pob un o'm hadolygiadau wedi'u nodi yn yr adroddiadau priodol y mae fy nhîm archwilio wedi'u cyflwyno trwy gydol y flwyddyn. Mae'r adroddiadau archwilio perfformiad ar gael ar wefan Archwilio Cymru ac mae dolenni pellach ar gael yn y crynodeb.

Dylid rhannu'r Crynodeb Archwilio Blynyddol gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Yna byddaf yn rhoi'r crynodeb ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru.

Hoffwn estyn fy niolchgarwch i swyddogion yr Awdurdod am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy ngwaith archwilio.

# Cipolwg ar eich archwiliad

Derbyniwyd y datganiadau ariannol drafft ar 7 Awst 2025, a oedd ar ôl y dyddiad cau o 30 Mehefin 2025 eleni ac, o ganlyniad, yn unol â chytundeb yn y sector Llywodraeth Leol, ni chafodd cyfrifon yr Awdurdod eu blaenoriaethu i'w harchwilio erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno, sef 31 Hydref 2025.

Roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio yn rhesymol – nododd ein gwaith archwilio nifer fawr o wallau ac arweiniodd y gwallau hyn naill ai at ddiwygiadau i'r cyfrifon a/neu angen i ni ymgymryd â gwaith archwilio ychwanegol a phrofion sampl estynedig.

Gyda'r ffenestr cynhyrchu ac archwilio cyfrifon yn lleihau y flwyddyn nesaf, bydd cyflawni'r dyddiadau cau cyfrifon ac archwilio diwygiedig hyn ar gyfer 2025-26 yn dod yn fwy heriol fyth.

Nid ydym wedi codi argymhelliad mewn perthynas â'r mater hwn. Byddwn yn ei drafod fel rhan o'n gwaith dysgu ar ôl prosiect archwilio gyda swyddogion, i asesu'r sefyllfa a gweithio gyda swyddogion i helpu i gyflawni'r dyddiadau cau cynharach.

Cyhoeddais farn ddiamod ar y cyfrifon ar ôl y dyddiad cau statudol ar 31 Hydref 2025. Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro yn y cyfrifon. Adroddwyd am un mater sylweddol mewn perthynas â gwallau sylfaenol o fewn y Gronfa Ailbrisio y bydd yr Awdurdod yn mynd i'r afael ag ef, er nad yw'n sylweddol, yn mynd i'r afael ag ef yn 2025-26.

Adroddwyd ar fy ngwaith archwilio perfformiad ar gyfer 2024-25 yng Nghrynodeb Archwilio Blynyddol 2024.

Nid yw fy nhîm archwilio wedi gwneud unrhyw argymhellion i'r Awdurdod ar gyfer y Crynodeb Archwilio Blynyddol 2025 hwn.

Mae fy nhîm archwilio wedi cwblhau'r gwaith archwilio fel y nodir yn fy Nghynllun Archwilio dyddiedig Ebrill 2025.

Yr amcangyfrif o'r ffi a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio dyddiedig Ebrill 2025 oedd £51,493 (£31,836 ar gyfer Archwiliad Ariannol a £19,657 ar gyfer Archwiliad Perfformiad).

Mae'r ffi Archwilio Perfformiad terfynol yn unol â'r amcangyfrif.

Fodd bynnag, oherwydd nifer y materion a'r camddatganiadau a nodwyd yn ystod ein gwaith archwilio ariannol (fel yr adroddwyd yn ein hadroddiad Archwilio Cyfrifon ym mis Chwefror 2026), codwyd ffi ychwanegol o £1,959 am yr Archwiliad Ariannol.

# Canfyddiadau’r archwiliad o’r cyfrifon

Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos stiwardiaeth arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau/cronfeydd wrth gefn net, cyfanswm incwm a gwariant cynhwysfawr, a llif arian parod. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ar a oedd y cyfrifon wedi'u paratoi'n briodol ac yn rhoi barn wir a theg, ym mhob agwedd berthnasol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

Derbyniwyd y datganiadau ariannol drafft ar 7 Awst 2025, a oedd ar ôl y dyddiad cau o 30 Mehefin 2025 eleni ac, o ganlyniad, yn unol â chytundeb yn y sector Llywodraeth Leol, ni chafodd cyfrifon yr Awdurdod eu blaenoriaethu i'w harchwilio erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno, sef 31 Hydref 2025.

Roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio yn rhesymol – nododd ein gwaith archwilio nifer fawr o wallau ac arweiniodd y gwallau hyn naill ai at ddiwygiadau i'r cyfrifon a/neu angen i ni ymgymryd â gwaith archwilio ychwanegol a phrofion sampl estynedig.

Gyda'r ffenestr cynhyrchu ac archwilio cyfrifon yn lleihau y flwyddyn nesaf, bydd cyflawni'r dyddiadau cau cyfrifon ac archwilio diwygiedig hyn ar gyfer 2025-26 yn dod yn fwy heriol fyth.

Nid ydym wedi codi argymhelliad mewn perthynas â'r mater hwn. Byddwn yn ei drafod fel rhan o'n gwaith dysgu ar ôl prosiect archwilio gyda swyddogion, i asesu'r sefyllfa a gweithio gyda swyddogion i helpu i gyflawni'r dyddiadau cau cynharach.

## Fy marn archwilio

Rhaid i mi adrodd materion sy'n codi o fy ngwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu i'w hystyried cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddais y materion hyn yn fy Adroddiad Archwilio Cyfrifon i gyfarfod Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 11 Chwefror 2026.

## Cywirdeb paratoi

Gwnaed nifer fawr o newidiadau i'r cyfrifon drafft sy'n deillio o fy ngwaith archwilio.

Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro.

Adroddwyd am un mater sylweddol mewn perthynas â gwallau sylfaenol o fewn y Gronfa Ailbrisio y bydd yr Awdurdod yn mynd i'r afael ag ef, er nad yw'n sylweddol, yn mynd i'r afael ag ef yn 2025-26.

Nid oedd fy ngwaith yn nodi unrhyw wendidau materol mewn rheolaethau mewnol (fel sy'n berthnasol i'm harchwiliad), ac ni wnes unrhyw argymhellion.

Paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif yr Awdurdod yn unol â'r Cod CIPFA a'r canllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a gyda fy ngwybodaeth am yr Awdurdod.

Fe wnes i ddod i'r casgliad bod cyfrifon yr Awdurdod wedi'u paratoi'n briodol ac yn sylweddol gywir a chyhoeddi barn archwilio anghymwys arnynt.

## Cwblhau archwiliad

Cyhoeddais y dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o gyfrifon ar gyfer 2024-25 wedi'i gwblhau ar 13 Chwefror 2026.

# Canfyddiadau archwilio perfformiad

Adroddodd fy nhîm y gwaith archwilio perfformiad a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2024-25 yn ein Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd gennym ym mis Mai 2025. Roedd y Crynodeb hwnnw'n cynnwys ein hadolygiadau ar osod amcanion llesiant ac ar hybu mynediad i'r Parc Cenedlaethol.

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn absoliwt. Credwn fod ansawdd archwilio yn ymwneud â chael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio tair llinell sicrwydd i ddangos sut rydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Rydym yn destun craffu annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr ac mae ein Cadeirydd y Bwrdd yn gweithredu fel cyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. Am ragor o wybodaeth gweler Adroddiad Ansawdd Archwilio 2024.



### Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- Goruchwyliaeth ac adolygu



### Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Platfform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technelogol



### Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y broblem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

# Rhagor o wybodaeth

Mae gan Archwilio Cymru ystod o wybodaeth arall i gefnogi'r gwaith o graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru ac i barhau i wella'r gwasanaethau a ddarperir i bobl Cymru.

## Ewch i'n gwefan i ddod o hyd i:

Ein cyhoeddiadau sy’n ymdrin â'n gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.

Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.

Offer data i'ch helpu i ddeall tueddiadau gwariant cyhoeddus yn well.

Manylion ein gwaith a’n digwyddiadau Arfer Da, gan gynnwys rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg a mewnwelediadau o'n gwaith archwilio.

Ein cylchlythyr sy'n rhoi diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.